Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl365

**Amseru:** Unigol

**Teitl:** Fly Mama

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Cyllid

**Crynodeb Gweithredol:**
Mae Fly Mama yn llwyfan llesiant ystyriol o drawma ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n sicrhau bod menywod a phobl sy'n rhoi genedigaeth yn derbyn cefnogaeth ac arweiniad proffesiynol drwy gydol eu beichiogrwydd a'u taith ôl-enedigol, gan gynnwys cefnogaeth pe byddent yn profi unrhyw drawma neu golled amenedigol. Amcan y rhaglen cefnogaeth barhaus gyda Heddlu Dyfed Powys yw parhau i ddangos tystiolaeth o'r effaith y mae cefnogaeth gan Fly Mama yn ei gael ar iechyd a lles cyfranogwyr a hefyd defnyddio adborth cyfranogwyr i wella'r llwyfan a defnyddioldeb.

Yn ystod 2024, cyllidodd SCHTh ac Unsain ar y cyd dreial 12 mis gyda Fly Mama i gefnogi'r rheiny sy'n feichiog neu newydd fod yn feichiog. Cyfanswm cost y treial 12 mis oedd £2,500, gyda'r gost wedi ei rannu'n gyfartal rhwng SCHTh ac Unsain. Roedd y treial yn cynnwys:

- Dewis o becynnau cefnogaeth sbectrwm llawn gan Fly Mama
- Cefnogaeth 1 blwyddyn i hyd at 50 o gyfranogwyr
- Gofynnir i gyfranogwyr gwblhau ein holiaduron mesur canlyniadau cyn cychwyn y rhaglen, ar 6 mis ac ar ôl 1 blwyddyn o fynediad.
- Crëwyd tudalen lanio personoledig ar gyfer y sefydliad.

Yn dilyn cwblhau'r treial 12 mis, argymhellir bod SCHTh ac Unsain yn cyllido estyniad 6 mis gostyngedig i'r cytundeb gyda Fly Mama. (Mai-Tach 2025). Cyfanswm cost yr estyniad yw £2,500 gyda'r gost i'w rhannu'n gyfartal rhwng SCHTh ac Unsain. Bydd hyn yn galluogi'r Heddlu i adolygu'r gofynion i'r Heddlu a staff, deall beth arall sydd ar gael i ateb y galw hwnnw ac yna ystyried cynnig ar gyfer cytundeb tymor hirach gyda Fly Mama neu wasanaeth arall os ystyrir hynny'n fwy addas.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**Argymhelliad:**

Argymhellir bod y CHTh yn cymeradwyo cyllido estyniad 6 mis gostyngedig i'r cytundeb gyda Fly Mama. (Mai-Tach 2025). Cyfanswm cost yr estyniad yw £2,500 gyda'r gost i'w rhannu'n gyfartal rhwng SCHTh ac Unsain.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 22/01/2025**